

## LARRY YN SEREN Y SIOE AR LAN Y MÔR

**MAE CIMWCH CRAFF o'r enw Larry wedi bod yn diddanu'r stryd fawr.**

Y cimwch mawr oedd y seren yn nigwyddiad Seafest Cyngor Tref y Rhyl, gyda Larry, 12 troedfedd o uchwr, yn crwydro drwy'r dydd, yn stelcian o le i le.

Roedd tîm o gerflunwyr tywod arbenigol hefyd wrth law i helpu teuluoedd ddarganfod sut i wneud y castell dywod berffaith, sut i wneud siapiau a chymeriadau. Roedd peintio wynebaw, cerddoriaeth ac ymweliad gan Gadetiaid Môr y Rhyl yn cwblhau'r diwrnod, a ddenodd gannoedd o bobl i'r dref.

Y digwyddiad hwn oedd y cyntaf i'r maer newydd, y Cynghorydd Win Mullen-James, a ddywedodd: "Mae'r Rhyl wedi ei bendithio gyda stryd fawr ger y môr ac roeddem eisiau dod â'r dref at ei gilydd, cefnogi ein masnachwyr a rhoi syniadau i bobl o ran beth i'w wneud ar lan y môr ar ôl y digwyddiad.

"Larry yn ddi-os oedd seren y sioe, gan ddenu ton ar ôl ton o 'wows' gan lawer o ymwelwyr. Mae'r Rhyl yn datblygu enw am gynnal digwyddiadau anarferol a hynod, ac mae gennym haf o hwyl i edrych ymlaen ato gyda'r sioe awyr ar y gorwel hefyd."

Ynghyd â Larry, rhoddodd deuluoedd gynnig ar greu môr o gestyll tywod yn y stryd fawr gyda thîm o gerflunwyr tywod yn eu gwyllo – tîm y mae eu campweithiau wedi eu harddangos yn Sŵ Caeredin.

Dyma'r ail flwyddyn i ni gynnal Seafest yn dref. Roedd digwyddiad eleni yn cyddaro gydag ymgyrch Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, a oedd yn dathlu dyfrffyrdd Cymru.

Digwyddiad nesaf y cyngor fydd Rhyl Rocks gyda cherddoriaeth o'r 70au a'r 80au. Cynhelir y digwyddiad ar Orffennaf 21 ar stryd fawr y dref.

### Diwedd

